Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn
**Pontprenllwyd**
**Penderyn**
**Aberdâr**
**Rhondda Cynon Taf**
**CF44 9JW**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn

Lleolir Ysgol Gynradd Gymunedol Penderyn, ym mhentref Pontprenllwyd, sydd ychydig filltiroedd o dref Aberdâr yn awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf. Mae 239 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 21 oed meithrin. Mae'r ysgol wedi ei rhannu'n ddwy ffrwd ieithyddol gyda 183 disgybl yn y ffrwd Gymraeg a 56 yn y ffrwd Saesneg.

Tros dreigl tair blynedd, mae ychydig o dan 14% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Tua 10% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 16% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae'r ganran sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2010 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar sy’n hyrwyddo datblygiad personol disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn hapus i’w mynychu. Yn ystod eu cyfnod yno, mae’r mwyafrif yn gwneud cynnydd da ym mron pob maes dysgu ac yn cyflwyno’u gwaith yn hynod daclus. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda, maent yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi ac yn dangos dyfalbarhad a balchder yn eu gwaith. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae’r ysgol wedi profi llwyddiant wrth godi safonau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae’r athrawon yn ystyried barn disgyblion yn briodol wrth gynllunio themâu diddorol iddynt ac yn sicrhau bod mwyafrif y gweithgareddau a ddarperir yn gyson ar draws y dosbarthiadau oed cymysg a’r ddwy ffrwd. Mae’r tasgau’n bodloni anghenion y mwyafrif o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd priodol. Er hyn, nid yw dulliau cynllunio’r ysgol mor effeithiol ag y gallent fod i sicrhau cyflawniad cwricwlaidd dros gyfnod nac i gynorthwyo’r athrawon mewn gwersi. Mae’r staff yn sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth a’r mannau cyhoeddus yn fannau lliwgar a thaclus, lle mae arddangosfeydd yn rhoi bri ar waith y disgyblion.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Mireinio gweithdrefnau monitro a hunanarfarnu, gan sicrhau bod yr adroddiadau yn amlygu rhinweddau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn glir

A2 Gwneud yn siŵr bod gweithdrefnau cynllunio yn sicrhau cyflawniad priodol o'r cwricwlwm dros gyfnod, a'u bod yn ddefnyddiol i athrawon mewn sesiynau ar lawr dosbarth

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn gweithredu holl egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gyson

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth gychwyn yn yr ysgol, ychydig o ddisgyblion y ffrwd Gymraeg sy’n meddu ar fedrau cyfathrebu Cymraeg sy’n cyfateb i’r lefel a ddisgwylir o ystyried eu hoed. Yn y ffrwd Saesneg, mae ychydig yn meddu ar fedrau cyfathrebu Saesneg sy’n uwch na’r disgwyl, tra bod y gweddill naill ai ar y lefel ddisgwyliedig neu is. Ychydig iawn o ddisgyblion sy’n cychwyn â medrau mathemategol sy’n uwch na’r disgwyl neu’n cyfateb iddo. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da ym mron pob maes dysgu. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau, ond nid yw ychydig o’r disgyblion sy’n fwy abl bob amser yn gwneud cystal cynnydd ag y disgwylir iddynt ei wneud.

Yn y ffrwd Gymraeg, mae’r mwyafrif o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn dod i siarad yr iaith Gymraeg yn lled fuan. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn sgwrsio mewn brawddegau llawn a thrafod manylion syml am wahanol faterion, fel disgrifio gwahanol drychfilod yn lled fedrus. Mae’r mwyafrif o ddisgyblion y ffrwd Saesneg yn sgwrsio â’i gilydd yn gynyddol hyderus wrth drafod beth maen nhw’n hoffi ei wneud, er enghraifft “Rydw i’n hoffi chwarae yn y parc. Beth wyt ti’n hoffi gwneud?” Mae mwyafrif y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Maent yn trafod eu llyfrau yn gynyddol hyderus yn y naill iaith neu’r llall, ac yn defnyddio strategaethau addas i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Maent yn ysgrifennu’n gynyddol gywir yn iaith eu dosbarth gan amrywio dechrau brawddegau ac atalnodi’n gywir at wahanol ddibenion, fel ysgrifennu disgrifiad o fôr-leidr neu adroddiad am y tywydd.

Mae’r mwyafrif o ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Maent yn cymhwyso’r rhain yn lled llwyddiannus mewn ystod o wahanol gyd-destunau diddorol. Er enghraifft, wrth astudio themâu fel trychfilod, mae disgyblion ym Mlwyddyn 1 a 2 yn dyblu rhifau’r smotiau ar adenydd pili-pala yn hyderus. Mae’r mwyafrif yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu eu medrau meddwl a datrys problemau.

Mae’r rhan fwyaf yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn gynyddol feistrolgar ar draws y cyfnod sylfaen. Maent yn defnyddio’r medrau hyn yn synhwyrol i’w cynorthwyo gyda’u tasgau. Er enghraifft, maent yn creu llun a brawddeg ar gyfrifiadur i atgyfnerthu eu gwybodaeth am drychfilod a chofnodi cylch bywyd gwenynen yn electronig trwy dorri a gludo lluniau mewn trefn.

Mae mwyafrif o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso’u medrau cyfathrebu, TGCh a rhifedd yn naturiol o fewn cyd-destun thema’r tymor. Mae disgyblion yn siarad yn gynyddol hyderus yn unol â disgwyliadau ieithyddol eu dosbarth. Yn y ffrwd Gymraeg, maent yn siarad i’r un safon yn y ddwy iaith, tra bod llawer o ddisgyblion y ffrwd Saesneg yn siarad yn huawdl yn yr iaith honno, ac yn ymdrechu i siarad Cymraeg yn gynyddol hyderus gan ddefnyddio patrymau priodol. Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu’n gadarn yn unol â’r disgwyliadau yn y ddwy ffrwd. Mae disgyblion hŷn yn sôn am eu hoff awdur ac yn rhoi rhesymau dilys am eu dewis o lyfr. Mae medrau ysgrifennu'r mwyafrif yn datblygu’n dda yn y

ddwy iaith yn y ffrwd Gymraeg, ac yn Saesneg yn y ffrwd arall. Mae disgyblion yn dysgu medrau ysgrifennu penodol mewn gwersi iaith ac yn eu hymarfer mewn ystod o wahanol gyd-destunau diddorol yn seiliedig ar eu thema mewn sesiynau topig. Mae disgyblion hŷn, er enghraifft, yn ysgrifennu sgript ar gyfer rhaglen 'Lloches y ddraig' yn y Gymraeg neu adolygiad ar y ffilm 'The Chihuahuan Desert' yn Saesneg. Mae llawer yn datblygu hyn ymhellach trwy ddefnyddio medrau TGCh yn fedrus i greu cyflwyniadau aml-gyfrwng, gan ddefnyddio sgrin werdd ymysg elfennau eraill. Maent yn defnyddio ystod briodol o raglenni yn hyderus, gan gynnwys taenlenni i gofnodi a dadansoddi data ar fesuriadau o wahanol rannau'r corff i ddarganfod a oes cyswllt rhyngddynt. Er enghraifft, maent wedi ceisio darganfod a oes cyswllt amlwg rhwng rhychwant braich a thaldra disgyblion y dosbarth.

Mae disgyblion cyfnod allweddol 2 yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn briodol mewn gwahanol gyd-destunau diddorol. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn ffurfio nifer o wahanol graffiau i gofnodi data am eu hoff ffrwythau Rhufeinig wrth astudio'r thema. Mae eraill yn dadansoddi a dehongli data am afonydd wrth astudio bywyd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn trafod system rhif y Maya yn lled hyderus ac yn adnabod dinasoedd Mecsico gan ddefnyddio cyfesurynnau mewn daearyddiaeth wrth astudio'r thema 'H'ola Mecsico', ac yn defnyddio amserlen trenau i gyfrifo amser teithio o fan i fan. Mae'r profiadau hyn, yn ogystal ag ymgymryd â her 'problem yr wythnos', yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus.

Mae bron pob disgybl yn cyflwyno'u gwaith yn hynod daclus.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol yn ystod amser cinio ac amser chwarae. Maent yn gwrtais, hyderus ac ystyriol, ac yn dangos gofal a pharch tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol ac yn cyfrannu'n effeithiol tuag at yr ethos dysgu cyson dda sy'n bodoli yno.

Mae mwyafrif y disgyblion yn barod i ddysgu ar ddechrau gwersi gan ddangos dyfalbarhad a balchder yn eu gwaith. Maent yn frwdfrydig ac yn canolbwyntio'n dda ar gyfraniadau eu cyfoedion ac athrawon ac yn osgoi gadael i bethau dynnu eu sylw oddi ar eu tasgau. Mae'r mwyafrif yn gweithio'n gynhyrchiol yn annibynnol, mewn grŵp a fesul dosbarth cyfan, ac yn symud yn hwylus rhwng gweithgareddau. Mae disgyblion ar draws yr ysgol yn cynnig syniadau perthnasol wrth ddewis themâu, yn ogystal â'r gweithgareddau fydd ynddynt yn dymhorol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gymorth mewn achosion sy'n peri gofid iddynt. Mae'r mwyafrif yn deall pwysigrwydd gwneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet; er enghraifft, y disgyblion benderfynodd cyflwyno "Fruity Friday" yn yr ysgol i ddisodli "Cake Friday". Mae'r rhan fwyaf yn deall pwysigrwydd hybu ffitrwydd ac yn mwynhau'r ystod o weithgareddau corfforol sydd ar gael yn yr ysgol. Maent yn deall sut i gadw'u hunain yn ddiogel ar-lein ac mae'r arweinwyr digidol yn pwysleisio diogelwch ar y we yn gyson i'w cyfoedion.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymroi'n llwyr i fywyd ysgol ac yn barod i ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain fel aelodau o'r cyngor ysgol, pwyllgor eco, fel arweinwyr

digidol a chyfeillion maes chwarae. Mae'r cyngor ysgol yn noddi dau blentyn o Dde America yn flynyddol, sy'n codi eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill ar draws y byd yn dda. Mae ymwybyddiaeth y mwyafrif o bwysigrwydd materion cynaliadwyedd yn datblygu'n effeithiol.

Trwy gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau dosbarth sy'n hybu tegwch, cydraddoldeb a goddefgarwch, mae mwyafrif y disgyblion yn datblygu'n ddinasyddion moesegol a gwybodus. Mae'r mwyafrif ohonynt yn datblygu agweddau ac ymddygiadau allweddol fel pwysigrwydd helpu a pharchu ei gilydd a'u hunain yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, sy'n annog y disgyblion i ddysgu, ac mae'r athrawon yn darparu tasgau a phrofiadau sy'n ennyn diddordeb y mwyafrif ohonynt. Mae'r athrawon yn darparu tasgau sy'n bodloni anghenion y mwyafrif o ddisgyblion ac yn eu galluogi i wneud cynnydd addas. Fodd bynnag, ychydig yn anghyson yw disgwyliadau uchel yr athrawon, ac nid ydynt bob amser yn herio'r disgyblion sy'n fwy abl i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Mewn gwersi, mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu yn glir gyda'r disgyblion, sy'n eu galluogi i ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud yn ystod y sesiwn. Mae'r athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau yn dda ac yn defnyddio amrywiol dechnegau holi i ymestyn a datblygu ymhellach ymatebion y disgyblion a chanfod yr hyn y maent yn ei ddeall. Mae staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol â'r athrawon ac yn darparu arweiniad a chymorth defnyddiol i alluogi mwyafrif y disgyblion i gyflawni'n dda. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn rhoi adborth buddiol i'r disgyblion ar sut i wella'u gwaith ac yn rhoi cyfleoedd pwrpasol iddynt asesu eu perfformiad eu hunain a'u cyfoedion. Mae hyn yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r meini prawf llwyddiant.

Mae'r athrawon yn cynllunio themâu diddorol fel cyfrwng i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh y disgyblion, yn ogystal â chynnwys cwricwlaidd y pynciau ac agweddau eraill. Maent yn cyd-gynllunio'n wythnosol mewn grwpiau i sicrhau bod disgyblion o'r un oed ar draws y ddwy ffrwd yn derbyn yr un profiadau, gan ystyried gofynion y fframwaith llythrennedd a rhifedd yn barhaus. Er hyn, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon manwl ar gyfer y tymor hir i sicrhau cyflawniad cwricwlaidd llwyr dros gyfnod. Yn eu cynlluniau wythnosol, mae'r athrawon yn rhoi ystyriaeth addas i'r medrau y maent am eu datblygu a'u cyflwyno i'r disgyblion, ond nid yw'r cynllunio hwn yn ddigon miniog i fod o gymorth iddynt wrth gyflwyno gwersi unigol. Mae hyn yn llesteirio cynnydd lleiafrif y disgyblion mewn gwersi, yn arbennig ychydig o'r rhai uwch eu gallu. Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn y ffrwd Saesneg mewn gweithgareddau addysgu ffurfiol a sefyllfaoedd anffurfiol yn dda. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u hagwedd tuag at y Gymraeg.

Mae staff yn annog disgyblion y cyfnod sylfaen i ddatblygu eu medrau mewn amrywiol o sefyllfaoedd diddorol. Fodd bynnag, nid yw'r ysgol bob amser yn cydymffurfio'n llwyr â holl egwyddorion y cyfnod sylfaen. Mae tasgau yn aml yn cael eu harwain yn ormodol gan oedolion, ac nid yw'r amgylchedd dysgu yn ysgogi digon ar y disgyblion i ymchwilio a darganfod drostyn nhw eu hunain.

O ganlyniad i'r diffyg yn y cynllunio ac agweddau o'r ddarpariaeth, mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain a monitro cynnydd yr holl ddisgyblion ac mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn gyson a phriodol i ddarparu profiadau dysgu addas ar eu cyfer. Mae'r rhain yn cynnwys strategaethau ymyrraeth sy'n briodol ac yn bodloni anghenion y rhan fwyaf ohonynt. Mae staff yn olrhain cynnydd disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r athrawon yn paratoi cynlluniau addysg unigol perthnasol i'r disgyblion sydd eu hangen. Mae'r rhain yn cynnwys targedau realistig ar eu cyfer sydd wedi eu gosod mewn partneriaeth â nhw a'u rhieni. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'u targedau ac o'u mannau cychwyn.

Mae'r ysgol yn gweithio'n gyson gydag amrywiaeth o asiantaethau allanol, sy'n cynnwys y seicolegydd addysg a swyddogion y gwasanaethau cymdeithasol, i sicrhau ei bod yn darparu cymorth addas sy'n bodloni anghenion disgyblion yn briodol. Mae ethos ac awyrgylch deuluol yr ysgol yn sicrhau cefnogaeth gadarnhaol ddiamod ar gyfer disgyblion ag anghenion emosiynol a chymdeithasol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r disgyblion ag anghenion penodol yn elwa ar bob cyfle y mae'r ysgol yn ei gynnig.

Mae'r staff yn sicrhau bod yr ystafelloedd dosbarth a'r mannau cyhoeddus yn lliwgar a thaclus, lle mae arddangosfeydd yn rhoi bri ar waith y disgyblion. Mae polisi drws agored yr ysgol wedi cyfrannu tuag at sefydlu perthnasoedd buddiol gyda mwyafrif y rhieni. Mae amrywiol ddulliau cyfathrebu'r ysgol yn bodloni anghenion y mwyafrif o rieni ac yn eu galluogi i gyfathrebu ag athrawon unigol trwy ddefnyddio ap electronig penodol. O ganlyniad, mae rhieni yn medru codi unrhyw fater a allai effeithio ar ddysgu neu les eu plentyn gydag athrawon yn rheolaidd. Mae'r ysgol yn darparu adroddiad blynyddol cynhwysfawr i rieni, sy'n rhoi gwybodaeth briodol iddynt am gynnydd eu plentyn ynghyd â'r camau priodol nesaf ar eu cyfer.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol disgyblion, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn cael cyfle i fyfyrio'n briodol mewn sesiynau addoli ysgol gyfan ac mewn dosbarthiadau unigol, lle bo'r awyrgylch yn dawel, myfyrgar ac ysbrydol. Mae staff yn annog disgyblion i ddatblygu eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud dewisiadau a fydd yn effeithio ar eu hiechyd yn llwyddiannus mewn cydweithrediad ag asiantaethau allanol. Er enghraifft, mae nyrs yr ysgol yn darparu addysg bersonol ar ystod o faterion perthnasol a rhai sensitif, tra bod yr heddlu yn trafod materion fel peryglon camddefnyddio sylweddau a diogelwch ar y we. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, gan ddilyn rhaglen genedlaethol i'w cynorthwyo. Mae hefyd yn cynnal clybiau allgyrsiol wythnosol sy'n hyrwyddo iechyd a lles disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae gwersi addysg bersonol a chymdeithasol cyffredinol yr ysgol yn cynnig trawstoriad o weithgareddau sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth, aflonyddu a bwlio, sy'n ategu datblygiad medrau cymdeithasol disgyblion. O ganlyniad, mae trefniadau'r ysgol i feithrin dull cadarnhaol o reoli ymddygiad a chreu diwylliant i ddileu bwlio yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hybu diwylliant Cymru yn effeithiol, gan seilio cynnwys nifer o'r themâu trawsgwricwlaidd ar hanes a daearyddiaeth leol a chenedlaethol. Darperir ymweliadau addysgol sy'n atgyfnerthu gwaith thematig y dosbarth ac sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant a'r gymuned leol. Er enghraifft, mae cysylltiadau agos yn bodoli rhwng yr ysgol â Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, lle mae swyddogion wedi helpu i ddatblygu ardal y goedwig. Mae hyn yn cynnig cyfle i ddisgyblion weithio yn yr ardal allanol pan fydd yn briodol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion gystadlu yn Eisteddfod yr Urdd a chymryd rhan mewn perfformiadau amrywiol sy'n meithrin eu hunanhyder a'u gallu mynegiannol yn llwyddiannus

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae gan arweinwyr weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau cyfleoedd pwrpasol i'r holl ddisgyblion ddatblygu hyd eithaf eu gallu ymhob agwedd o fywyd ysgol. Maent yn cyfleu'r weledigaeth yn llwyddiannus i'r staff, y llywodraethwyr a'r disgyblion er mwyn creu ethos cynhwysol a chefnogol. Mae aelodau'r uwch dîm rheoli ynghyd â gweddill y staff yn cefnogi'r pennaeth yn dda. Maent yn cydweithio'n effeithiol fel tîm i wireddu blaenoriaethau strategol yr ysgol. Mae pob un yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac yn eu cyflawni'n briodol, sy'n eu galluogi i gyfrannu'n bwrpasol at sicrhau safonau cadarn o ran lles a chyflawniad disgyblion.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol ynghyd â nifer o'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o amrywiol weithdrefnau hunanarfarnu pwrpasol, fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data i adnabod y blaenoriaethau perthnasol i'w gwella. Maent yn canfod barn rhieni, disgyblion, staff a llywodraethwyr am fywyd a gwaith yr ysgol trwy gyfrwng holiaduron yn rheolaidd. Mae hyn yn rhoi darlun defnyddiol iddynt o'r hyn sy'n dda ynghyd â nifer o feysydd sydd angen eu gwella, er nad ydynt bob amser yn cyfleu hyn yn ddigon clir mewn adroddiadau ysgrifenedig. Nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn ddigon arfarnol ac er ei fod yn amlygu cryfderau'r ysgol, nid yw'n cyfeirio'n ddigon clir at bob maes sydd angen ei wella. Mae blaenoriaethau'r cynllun gwella yn seiliedig ar adnabyddiaeth arweinwyr o'r ysgol ac o gynnydd unigolion yn benodol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio'n glir ar gynnal a chodi safonau ac mae arweinwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y targedau hyn yn rheolaidd. Mae gan arweinwyr hanes clir o godi safonau disgyblion mewn llythrennedd, rhifedd a TGCh ers yr arolygiad diwethaf.

Mae gan aelodau'r corff llywodraethol wybodaeth gadarn am berfformiad carfanau o ddisgyblion. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi'r ysgol ac i ddwyn arweinwyr i gyfrif am ei pherfformiad yn briodol. Mae aelodau is-bwyllgorau'r corff llywodraethol yn cyfrannu'n werthfawr at gyfeiriad strategol yr ysgol trwy ymgymryd â gweithgareddau buddiol fel ymweld â'r ysgol i graffu ar lyfrau a siarad â staff a disgyblion am eu gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod ganddynt drosolwg clir o fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn er mwyn cefnogi dysgu proffesiynol yr holl staff. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at ddiwylliant ac ethos sy'n cefnogi staff i gynyddu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau proffesiynol. Er enghraifft, mae llawer o gynorthwywyr wedi ymgymryd â hyfforddiant penodol er mwyn gweithredu fel uwch gymorthyddion ar draws yr ysgol. Mae staff hefyd yn defnyddio cyfleoedd buddiol i gydweithio ag ysgolion eraill i ddatblygu elfennau o'r ddarpariaeth, er enghraifft i ddatblygu medrau

rhifedd y disgyblion. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion mewn amrywiol feysydd.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyllideb yr ysgol yn bwrpasol i wella’r ddarpariaeth a chodi safonau, ac mae’r gwariant yn cysylltu’n synhwyrol â blaenoriaethau’r cynllun gwella. Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae’r staff cynorthwyol yn rhan effeithiol o'r tîm, gan gyfrannu'n llwyddiannus at godi safonau, a sicrhau lles a medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae’r arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion yn effeithiol i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles rheini sy’n deilwng ohono.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/07/2018